



Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 10FED TACHWEDD, 2022**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00 y.b.

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH /  
Zoom**

**\* NODER \***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 2 Tachwedd 2022)

## **PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

### **AELODAETH (18)**

#### **Plaid Cymru (11)**

Y Cynghorwyr

Menna Baines  
Rheinallt Puw  
Linda Ann Jones  
Gwynfor Owen  
Einir Wyn Williams  
Jina Gwyrfai

Medwyn Hughes  
Dewi Jones  
Linda Morgan  
Meryl Roberts  
Sasha Williams

#### **Annibynnol (6)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones  
Eryl Jones-Williams  
John Pughe

Anwen J. Davies  
Beth Lawton  
Angela Russell

#### **Llafur/Rhyddfrydol (1)**

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelodau Eraill a Wahoddwyd**

Y Cynghorwyr

Dilwyn Morgan

Elin Walker Jones

Craig ab Iago

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor han a gynhaliwyd ar y 29<sup>ain</sup> o Fedi, 2022 fel rhai cywir.

## 5. CYFLWYNIAD GAN Y GWASANAETH AMBIWLANS

I dderbyn cyflwyniad gan Jason Killens, Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwllans Cymru ac Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu.

## 6. GWASANAETH IEUENCTID

14 - 29

I ddiweddarau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau'r Gwasanaeth Ieuenctid.

*(Torriad i ginio)*

## 7. POLISI GOSOD TAI

30 - 32

Cyflwyno adroddiad interim i'r Pwyllgor ar gynnydd y Polisi Gosod Tai ers ei weithrediad ddwy flynedd yn ôl.

## 8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

33 - 34

I'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.

---

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 29 MEDI 2022

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

**Y Cyngorwyr:** Menna Baines, Anwen J. Davies, Jina Gwyrfai, Dewi Jones, Elwyn Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, Linda Morgan, Gareth Coj Parry, John Pughe, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell, Einir Wyn Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### **Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Y Cyngorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Rhion Glyn (Pennaeth Cynorthwyol – Oedolion, Iechyd a Llesiant).

### **Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Y Cyngorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo) a David Mark Lewis (Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol).

## **1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr R. Medwyn Hughes a Gwynfor Owen.

## **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol ar gyfer eitem 6 gan y Cyngorydd Rheinallt Puw am fod ei ferch yn gweithio yn y maes gofal yn ogystal â'r Cyngorydd Eryl Jones-Williams gan fod ei wraig yn derbyn gofal. Nid oedd y buddiannau hyn yn rhai oedd yn rhagfarnu felly ni adawsant y cyfarfod.

## **3. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi.

## **4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

## **5. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD – PLANT A THEULUOEDD**

Atgoffwyd y Pwyllgor bod angen un cynrychiolydd arall i fynychu cyfarfodydd herio Perfformiad yn y maes gwaith Plant a Chefnogi Teuluoedd. Nodwyd y bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i dderbyn diweddariadau ar brosiectau blaenoriaeth ac yn gyfle i herio a dod a materion i sylw'r Pwyllgor Craffu. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**

**Enwebu'r Cynghorydd Sasha Williams fel yr ail Gynghorydd i fynychu cyfarfodydd Herio Perfformiad maes gwaith Plant a Chefnogi Teuluoedd.**

**6. RECRIWTIO A CHADW STAFF (ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT)**

Adroddodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant bod yr adroddiad Recriwtio a Chadw Staff yn darparu cefndir ac yn amlygu'r argyfwng staffio sy'n bodoli o fewn yr Adran. Nodwyd bod yr adroddiad yn un gonest sydd ddim yn ceisio cuddio unrhyw broblem. Ychwanegwyd bod yr argyfwng staffio yn y maes yn un cenedlaethol sy'n effeithio ar Awdurdodau Lleol yn ogystal â'r Gwasanaethau Iechyd.

Manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch i staff yr Adran am eu gwaith yn ogystal â'r Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol am yr adroddiad. Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth â'r Cabinet a bod trafodaethau yn cael eu cynnal yn genedlaethol a Rhanbarthol er mwyn uchafu'r argyfwng presennol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynorthwyol gan nodi'r cefndir sydd yn adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa. Adroddwyd bod materion staffio yn y maes wedi derbyn blaenoriaeth ers peth amser ac yn derbyn sylw yn lleol cyn y cyfnod Cofid ond bu i'r pandemig waethygu sefyllfa oedd eisoes yn fregus.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at y prif heriau megis cadw gafael ar staff a cheisio denu staff newydd i'r maes. Crynhowyd y rhesymau dros yr heriau hyn cyn nodi sut mae'r Adran yn ceisio ymateb i'r sefyllfa a'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod yr adroddiad yn un agored am yr heriau mae'r Adran yn ei wynebu a bod Adrannau eraill megis yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd yn wynebu heriau sylweddol. Credwyd ei bod yn bwysig rhannu'r heriau gan eu bod yn effeithio ar allu'r Adran i ddarparu gwasanaethau. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn rhoi darlun mewnol o sefyllfa'r Cyngor a ddim yn cynnwys heriau tebyg sy'n bodoli yn y sector breifat a'r drydedd sector. Adroddwyd bod y sectorau hyn hefyd yn wynebu'r un heriau recriwtio.

Soniwyd am effaith y sefyllfa er enghraifft rhestrau aros maith, cleifion yn methu dychwelyd adra o'r ysbytai a'r pwysau ar staff. Nodwyd bod llawer o ymdrech a gweithgaredd yn digwydd, ac er bod yr Adran wedi profi llwyddiannau bychain, nid oes eto datrysiaid i'r sefyllfa sy'n peri pryder. Pwysleisiwyd bod angen edrych ar yr hyn all gael ei wneud yn lleol a beth sydd o fewn rheolaeth y Cyngor ac yr Adran drwy sicrhau buddsoddiad gofalus o adnoddau presennol. Nodwyd mai adroddiad dechreuol yw hwn a gobeithir derbyn awgrymiadau gan y Pwyllgor Craffu ac awydd gan Aelodau i gynorthwyo a bod yn rhan o'r datrysiaid.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad. Credwyd ei bod yn ddyletswydd ar Gynghorwyr i hyrwyddo'r swyddi yn y maes gofal i bobl leol.
- Gofynnwyd a yw'n bosib cynyddu'r cyswllt efo Colegau megis Coleg Meirion Dwyfor a chynnig lleoliadau i ddisgyblion. Holwyd os yw'n bosib ymweld â'r Coleg i siarad am ba waith a chyfleoedd sydd ar gael yn y maes gofal. Credwyd bod angen annog y dosbarthiadau iechyd a gofal cymdeithasol i chwilio am gyfleoedd yn lleol a sicrhau bod hyfforddiant parhaus ar gael yn y gweithle.
- Holwyd os oes bwriad i gynyddu cyflogau gofawyr yn y dyfodol i'w cadw nhw rhag gadael eu swyddi.

- Nodwyd bod y ffigwr sy'n dangos gostyngiad o 42% yn nifer yr unigolion sydd wedi gwneud cais i gymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol ar draws Gymru eleni o gymharu â 2016 yn drawiadol. Gofynnwyd beth yw'r ffigwr yng Ngwynedd.
- Gofynnwyd a oedd lefel cyflog cenedlaethol yn bodoli i Weithwyr Cymdeithasol fel sydd mewn lle ar gyfer athrawon.
- Mynegwyd balchder bod gwaith lobbio yn digwydd efo'r Llywodraeth ac anogwyd i hyn barhau er mwyn ceisio cael newid cenedlaethol.
- Holwyd sut y mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn cymharu efo Môn neu Gonwy.
- Nodwyd ei bod yn ddigalon clywed am yr argyfwng yn y maes gofal, yn enwedig bod canran o 44% a 34% o swyddi a hysbysebwyd heb dderbyn unrhyw gais rhwng Ebrill a Gorffennaf flwyddyn yma. Holwyd sut mae'r ffigyrau hyn yn cymharu â Siroedd eraill ac efo Adrannau eraill yn y Cyngor.
- Ychwanegwyd y byddai wedi bod yn fuddiol i'r adroddiad ganolbwyntio mwy ar y datrysiadau i'r problemau recriwtio.
- Cyfeiriwyd at ran 5.4 o'r adroddiad gan holi am ddiweddariad ar waith y swyddog gafodd ei phenodi yn Rhagfyr 2021 i ddatblygu'r llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y maes ac i ymgymryd â gwaith marchnata.
- Holwyd pa gynlluniau sydd ar y gweill i ail gynhyrchu llwyddiant digwyddiad Plas Hedd ym Maesgeirchen.
- Credwyd bod pryder yn bodoli ymysg Gweithwyr Cymdeithasol a bod pryderon wedi eu datgan am y trawsnewid trefniadau gofal cartref sydd wedi digwydd. Gofynnwyd sut mae'r Adran yn cefnogi staff presennol yn ogystal â cheisio recriwtio staff newydd. Dymunwyd cael gwybod faint o ymdrech sydd wedi bod pan mae gweithwyr gofal yn gofyn am help ac os oes modd ysgafnu'r baich.
- Awgrymwyd y dylai'r Adran edrych ar gyfleoedd pellach e.e. cynnig swyddi rhan amser pan nad oes neb ar gael i lenwi swyddi llawn amser ac edrych ar staff mewnol y Cyngor all gael eu hyfforddi i helpu ambell ddiwrnod o'r wythnos. Pwysleisiwyd bod angen hyblygrwydd ac efallai ceisio targedu staff sydd yn colli eu gwaith o ganlyniad i sefydliadau / siopau yn cau.
- Holwyd os yw'r Adran yn cynnal cyfweiliadau efo staff sy'n gadael er mwyn nodi eu rhesymau dros adael eu swyddi.
- Gofynnwyd a oes staff wedi eu colli yng Ngwynedd oherwydd eu bod nhw wedi gwrthod y brechlynnau cofid.
- Cytunwyd efo sylwadau blaenorol Aelodau am dargedu Ysgolion a Choleg Meirion Dwyfor ond cwestiynwyd os yw trigolion cefn gwlad yn mynd i gymryd y cyfleoedd i hyfforddi tra mae costau trefeillio, tanwydd a rhedeg ceir mor ddrud. Ychwanegwyd bod hyn yn her o ystyried bod gweithwyr siop yn cael eu talu'r un fath os nad yn well na rhai swyddi o fewn y maes gofal. Credwyd nad yw'r cyflog i ofalwyr yn ddigonol i gydnabod y cyfrifoldebau.
- Teimlwyd bod y system iechyd a gofal cymdeithasol ddim yn cydweithio'n effeithiol e.e. pobl yn methu dychwelyd adra o'r ysbytai.
- Credwyd bod angen gweithio efo'r system iechyd er mwyn sicrhau bod swyddi a hyfforddi pellach ar gael i'r sawl sy'n graddio yn y maes neu'n cwblhau cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad am waith yr Adran o dan amgylchiadau heriol iawn a chymerodd y cyfle i ddiolch i staff yr Adran am eu gwaith. Yn ogystal diolchwyd i Aelodau'r Pwyllgor am eu cwestiynau.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Byddai modd gwneud ymholiadau i weld a oes gostyngiad wedi bod yn nifer y rhai o Wynedd sydd wedi gwneud cais i gymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol.
- Bod lefelau cyflog gweithwyr cymdeithasol yn amrywio ar draws Awdurdodau. Nodwyd bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn edrych ar y mater Cenedlaethol hwn a'i fod yn rhan o drafodaethau efo Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai lefel cyflog Cenedlaethol yn arbed staff rhag symud rhwng Awdurdodau.
- Bod yr Adran yn ceisio annog pobl i ddilyn gyrfaeodd yn lleol a bod perthynas dda yn bodoli efo Coleg Meirion Dwyfor. Bydd angen sicrhau bod y berthynas yma'n parhau a bod cynigion a chyfleoedd yn cael eu rhoi yng nghyd diestyn profiadau gwaith a'n rhan o asesu cyrsiau. Adroddwyd bod y Rheolwr Datblygu Gweithlu yn ceisio symud y gwaith hwn yn ei flaen.
- Ei bod yn bosib i Swyddog fynychu Coleg Meirion Dwyfor i siarad am y cyfleoedd yn y maes Gofal. Eglurwyd bod hyn wedi digwydd yn y gorffennol ond credwyd y dylid pwysleisio ar y cydweithio a gwella'r strwythur yn gyntaf. Ychwanegwyd y gall hyn ddigwydd yn y dyfodol.
- Bod gwybodaeth yn yr adroddiad ar effaith cytundeb tâl ar gyflogaeth, sydd yn gyffredinol ar draws swyddi Awdurdodau Lleol. Adroddwyd bod trafodaethau Cenedlaethol yn cael eu cynnal efo Partneriaid i edrych ar lefelau cyflog yn y maes gofal. Ychwanegwyd bod gwaith mewnol hefyd yn digwydd i adolygu Swydd Ddisgrifiadau. Credwyd ei bod yn amserol i edrych ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau gweithwyr yn y maes gan fod y gwaith wedi cynyddu ac wedi cymhlethu yn y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod anghenion trigolion wedi newid ac wedi dwysau, bellach mae angen i weithwyr berchnogi sgiliau a hyfforddiant arbenigol cyn ymgymryd ag agweddau o'r gwaith felly mae angen gwirio'r cyflogau sy'n cael eu talu i staff.
- Yn dilyn cais am eglurder am yr hyn a nodwyd yn rhan 3.8 o'r adroddiad, cadarnhawyd mai 13 oedd cyfanswm y staff o dimau gwaith cymdeithasol yn y maes Oedolion adawodd eu swyddi yn 2021/22 i un ai fynd i weithio i Awdurdodau Lleol eraill neu i ddilyn gyrfaeodd tu allan i'r sector. Nodwyd nad oedd y ffigur hwn ar sail canran ar gael ar hyn o bryd. Ychwanegwyd bod mwyafrif o'r 13 swydd yma bellach wedi eu llenwi ond y byddai'n cymryd amser i ddalwyr newydd y swyddi ennill y profiad perthnasol.
- Bydd angen edrych ymhellach i ganfod y ffigurau ynglŷn â sut mae lefelau cyflog Gwynedd yn cymharu â lefelau cyflog Siroedd cyfagos.
- Cytunwyd bod y sefyllfa recriwtio yn ddyrys ac yn gyffredinol credwyd bod negeseuon cysgon gan Siroedd eraill sydd yn awgrymu eu bod nhw'n wynebu'r un heriau recriwtio a Gwynedd. O gymharu ag Adrannau eraill o fewn y Cyngor, cadarnhawyd mai'r maes Oedolion sydd yn wynebu'r heriau mwyaf o bell ffordd o ran recriwtio.
- Nodwyd bod y swydd y cyfeirir ati yn rhan 5.4 o'r adroddiad wedi dangos ei gwerth o'r mis cyntaf a bod y galw ar y swyddog yn uchel. Cyfeiriwyd at ddigwyddiadau gafodd eu cynnal e.e. ym Maesgeirchen ond bod rhaid i'r swyddog ddethol be all gael ei gyflawni. Adroddwyd bod swyddi fel hyn yn hanfodol er mwyn helpu i wella'r ddelwedd o weithio yn y maes ac i bontio'r gwaith Cenedlaethol ac i fuddsoddi mewn brandio. Ychwanegwyd bod yr adnodd yn werthfawr.
- Adroddwyd bod digwyddiadau tebyg i ddigwyddiad Plas Hedd wedi cael eu cynnal e.e. ym Mhorthmadog a Blaenau Ffestiniog ond yn anffodus heb brofi'r un llwyddiant. Nodwyd bod amrywiaeth ymysg cymunedau a chredwyd bod ymgyrchoedd lleol yn dueddol o fod yn fwy llwyddiannus nac ymgyrchoedd cenedlaethol. Nodwyd bod gan yr Adran restr hir o ardaloedd y dymunant eu targedu.

- Mewn ymateb i sylw os oedd yr Adran yn cysidro targedu Ysgolion er mwyn amlygu gyrfaoedd yn y maes, nodwyd bod yr Adran yn y broses o greu pecyn ond angen rhoi mwy o sylw iddo. Bydd hwn yn ffordd o grynhoi gwybodaeth berthnasol ac yn rhan o waith yr Uned Datblygu Gweithlu â' Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd.
- Cydnabuwyd bod pwysau ar staff fel Gweithwyr Cymdeithasol a bod lles staff yn bwysig i'r Adran. Gofynna'r Adran am fewnbwn cyson gan y Gweithwyr Cymdeithasol a cheisir rhoi cefnogaeth i'r gweithwyr. Nodwyd bod yr Arweinyddion Tîm a'r Uwch Reolwyr yn cadw golwg ar y sefyllfa ac yn ceisio ysgafnhau'r baich ar staff. Bydd cyfathrebu yn digwydd ar bob lefel ac ymweliadau yn cael eu cynnal. Nodwyd bod yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth wedi ymweld ag unigolion sy'n gweithio yn y maes yn ogystal â chartrefi gofal er mwyn sgwrsio â staff a defnyddwyr gwasanaeth. Anogwyd yr Aelodau i ddod i gysylltiad os yn ymwybodol o aelod o staff o fewn yr Adran sydd yn dymuno sgwrs bellach.
- Adroddwyd bod yr Adran mewn cydweithrediad efo'r Cyngor yn cynnig gwasanaethau fel Medra a bod rhaglenni Cenedlaethol o gefnogaeth yn bodoli. Cynigiwyd trefnu sgwrs efo'r Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion neu'r Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl i Aelodau sy'n dymuno er mwyn eu galluogi i dderbyn mwy o fanylder am y gwasanaeth cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol.
- Adroddwyd bod y gwaith ar drawsnewid trefniadau gofal cartref yn digwydd am y rhesymau cywir i geisio gwella'r gwasanaeth i bobl Gwynedd. Ychwanegwyd ei bod yn anffodus bod y newid hwn wedi digwydd ar adeg pan mae'r Gwasanaeth o dan bwysau enfawr sy'n cael ei gymhlethu ymhellach oherwydd yr heriau recriwtio. Credwyd y gellir gwerthuso'r canlyniadau mewn blwyddyn i flwyddyn a hanner er mwyn gweld os yw'r trawsnewid wedi gweithio. Ychwanegwyd nad y trawsnewid sydd wedi creu'r problemau ond bod yr amseru wedi bod yn anffodus a'i bod yn anodd mesur llwyddiant ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod yr Adran yn ceisio hyrwyddo cyfleon, maent eisoes wedi anfon newyddlen i staff yr Adran yn hysbysu cynigion i hyfforddi er mwyn gallu helpu efo elfennau o'r gwaith. Y cam nesaf bydd ymestyn y cynnig i staff y Cyngor er mwyn gweld os oes rhai yn dymuno helpu. Ychwanegwyd bod yr Adran yn ystyried ac yn derbyn ceisiadau am nifer amrywiol o oriau a bod cyfleoedd ar gael i ba bynnag faint o oriau sy'n bosib gan unigolion i weithio.
- Gwnaethpwyd sylw bod yr Adran yn noddï ac yn cynnig profiadau gwaith ac wedi cefnogi staff presennol yr Adran i hyfforddi a datblygu eu gyrfaoedd a'u galluogi i dderbyn swydd yn dilyn cwblhau'r cyrsiau perthnasol. Anogwyd unigolion sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y maes gofal i ddod mewn cysylltiad â'r Adran.
- Adroddwyd bod cyfweliadau gadael eisoes yn cael eu cynnal gan yr Adran a bod llawer o'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad wedi deillio o'r cyfweliadau hynny. Ychwanegwyd bod gwyliau'r Haf yn gyfnod anodd oherwydd bod cystadleuaeth yn erbyn swyddi tymhorol sy'n talu'n dda.
- Cadarnhawyd nad oedd staff wedi eu colli o'r Adran oherwydd gwrthwynebiad i gael eu brechu.
- Adroddwyd bod y Cyngor yn cynnig cymorth i staff er mwyn eu helpu i brynu ceir. Cydnabuwyd bod teithio yn broblem i rai ac o ganlyniad bod rhai yn symud i swyddi ble nad oes gofyn i deithio.
- Mewn ymateb i gwestiwn am llwyddiant cynllun peilot Nefyn, adroddwyd bod llwyddiannau wedi eu gweld a'i fod wedi cyfrannu at ddysgu am fodolau newydd o weithio.



- Adroddwyd bod llawer o gydweithio rhwng y Cyngor a'r sector iechyd yn enwedig ar lefelau lleol ond weithiau bod y gwahaniaeth rhwng systemau iechyd a systemau gofal yn gallu gwneud pethau'n anodd. Credwyd bod lle yma i wella.

Mynegodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i'r Pwyllgor am eu cwestiynau. Ychwanegodd bod pethau'n ymddangos yn dywyll ond bod cynlluniau blaengar a chyffrous yn mynd yn eu blaenau yn yr Adran.

Ychwanegodd y Pennaeth bod pob ymdrech yn cael ei roi i'r gwaith yn y maes gofal a'i fod yn gwerthfawrogi mewnbwn y Pwyllgor. Cynigiwyd hwyluso cyfarfodydd grŵp ffocws i ddau o aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal a staff yr Adran er mwyn cynnal sgysiaid hollbwysig yna gallent adrodd yn ôl i weddill y Pwyllgor.

I gloi nododd y Pennaeth ei fod yn gobeithio bod yr adroddiad yn rhoi blas o'r gwaith sy'n parhau ac yn mynd i ddiwydd yn yr Adran. Mynegodd ei awydd i Gynghorwyr dderbyn gwybodaeth er mwyn cael darlun clir o'r sefyllfa yn y maes. Adroddwyd y bydd yr Adran yn ceisio diweddarau'r Pwyllgor ynglŷn â datblygiadau posib gan obeithio y bydd yr Adran yn profi llwyddiant a'n gallu lleihau'r heriau.

## **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## **7. GWASANAETH CADWRAETH YNNI NEWYDD**

Derbyniwyd rhagair gan yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo a gyfeiriodd at waith tîm o Swyddogion yn y Gwasanaeth Eiddo sy'n ceisio lleihau ôl troed carbon y Cyngor. Nododd eu bod wedi profi llwyddiannau ac o ganlyniad, wrth greu'r Cynllun Gweithredu Tai, roedd awydd i helpu trigolion a'r cyhoedd yng Ngwynedd drwy gynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol. O ganlyniad eglurwyd bod y Gwasanaeth Cadwraeth Ynni Newydd wedi cael ei sefydlu. Dan arweiniad y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol credwyd bod y gwasanaeth hwn wedi llwyddo. Mynegwyd balchder yn y gwaith a phwysleisiwyd pwysigrwydd lledaenu'r neges am y gwaith da sy'n cael ei wneud gan y tîm.

Mynegodd y Pennaeth Tai ac Eiddo ei ddiolch am y cyfle i adrodd am weithgareddau'r Gwasanaeth Ynni Newydd i'r Pwyllgor. Nododd y bydd yr adroddiad yn cyfeirio at y daith o sefydlu'r gwasanaeth a'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma yn ogystal â'r gwaith sydd ar y gweill. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at sut mae cynllun rheoli carbon y Cyngor yn plethu efo'r gwaith ar y cynllun newid hinsawdd y mae'r Cyngor wedi ei ymrwymo iddo.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol gan gyfeirio at brif negeseuon yr adroddiad. Nodwyd bod dwy ran i'r adroddiad, bydd y rhan gyntaf yn cyfeirio at y Gwasanaeth Ynni Newydd a'r ail ran yn cyfeirio at y Cynllun Rheoli Carbon a'r gwaith sydd wedi ei wneud dros y deuddeg mlynedd diwethaf.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at y gwaith o ddatgarboneiddio tai a'r help sydd ar gael gan y Cyngor tuag at dlodi tanwydd. Nodwyd bod y wybodaeth yn yr adroddiad megis y graffiau yn drawiadol am eu bod yn dangos difrifoldeb y sefyllfa yng Ngwynedd a chyfeiriwyd at aneffeithlonrwydd ynni mwyafrif o dai'r Sir. Manylwyd am y cynlluniau megis Nyth ac ECO a'r taliadau sydd ar gael i gynnig cymorth i bobl Gwynedd a thrigolion sydd ar fesuryddion rhagdalau.

Ychwanegwyd bod y tîm yn ceisio sicrhau bod pobl y Sir yn hawlio popeth sydd ar gael iddynt ac yn gwneud gwaith o gyfeirio unigolion at y cynlluniau priodol. Rhagdybiwyd y bydd y galw ar y tîm yn cynyddu o ganlyniad i gostau tanwydd cynyddol ac mai amser a ddengys

a yw'r hyn sydd ar gael gan y tîm yn ddigonol i anghenion pobl Gwynedd. Nodwyd bod hafan newydd ar gyfer tlodi ar wefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol am y gefnogaeth sydd ar gael.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am adroddiad arbennig a broliwyd y cynnwys manwl.
- Mynegwyd sylw ei bod yn fwy costus i fod ar fesuryddion rhagdalau ond mai hwn yw'r opsiwn fwyaf fforddiadwy i amryw yn y Sir am nad oes angen talu lwmp swm yn chwarterol.
- Cyfeiriwyd at ECO 4 a'r grantiau sydd ar gael i insiwleiddio tai er mwyn arbed ynni. Pryderwyd y gall lleithder ddatblygu mewn eiddo o ganlyniad i waith insiwleiddio a holwyd os oes rywun o'r Cyngor yn cynnal ymweliadau er mwyn sicrhau bod y deunyddiau a ddefnyddiwyd gan gwmnïau yn addas. Holwyd hefyd a yw'r cwmnïau a ddefnyddir yn lleol, o Wynedd neu Ogledd Cymru.
- Mynegwyd ei fod yn gyfle da i hybu cydweithio ac i'r Cyngor ddenu prentisiaid neu hyrwyddo cyfleoedd am swyddi. Credwyd y byddai yn dda gallu cynnig cyfleoedd i'r ifanc ac i gyfrannu at y gwaith newid hinsawdd.
- Gofynnwyd beth yw criteria'r grantiau gan holi os oes help i'r rhai sy'n talu biliau yn chwarterol.
- Nodwyd bod y ffigyrau a nodwyd yn yr adroddiad yn galonogol iawn fel y 349 o gyfeiriadau i ECO 3. Canmolwyd y cynllun Nyth sydd wedi helpu i gynhesu eiddo trigolion a'i gwneud yn fwy ynni effeithlon yn ogystal â chynnig cyngor. Nodwyd bod y rhain yn gynlluniau sydd â budd sylweddol i iechyd a llesiant trigolion y Sir yn ogystal â lleihau eu biliau.
- Gwirwyd y ffigwr o alwadau a chyfeiriadau Nyth gan nodi bod yr adroddiad yn cyfeirio at 55 o gyfeiriadau allan o 257 o alwadau mewn un rhan ond yna yn cyfeirio at 257 o gyfeiriadau mewn rhan arall.
- Holwyd os yw unigolyn wedi derbyn cymorth drwy'r cynllun Nyth yn y gorffennol a yw'r Cyngor yn cysylltu gyda hwy eto ac a oes help pellach ar gael.
- Gofynnwyd a yw'r rhai sy'n derbyn lwfans person sengl treth Cyngor yn gymwys am y cynllun.
- Credwyd bod angen edrych ar dai yn eu cyfanrwydd gan nodi nad oes llawer o werth i wella boeleri a gwresogyddion os oes ffenestri o safon gwael mewn eiddo.
- Gwnaethpwyd sylw bod unigolion sy'n gweithio bellach hefyd yn wynebu tlodi ac weithiau yn dlotach na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau. Pwysleisiwyd bod angen helpu'r garfan yma o'r boblogaeth.
- Credwyd bod y cynnydd yng nghostau tanwydd wedi dychryn llawer o bobl ac y bydd galw uwch ar wasanaethau eraill fel yr ambiwlans o ganlyniad i hynny. Pryderwyd y bydd ymdrech trigolion y Sir i arbed costau ynni yn arwain at gymryd risgiau o fewn y cartref.
- Holwyd beth mae sefydliadau Hydro sydd i'w gweld mewn lleoliadau fel Llanberis, Maentwrog a Tanygrisiau yn ei gyfrannu ac os oes modd iddynt gyfrannu neu gynnig cymorth i bobl Gwynedd.
- Mynegwyd pryder am rai cwmnïau sy'n ychwanegu cost ar filiau trydan sy'n hwyr ac o fewn wythnos yn eu cyfeirio at gwmni dyled.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod pob math o bobl yn cysylltu am gymorth ond bod y rhan helaeth ar fesuryddion rhagdalau a bod y mwyafrif o'r help sydd ar gael ar gyfer y bobl hyn. Cadarnhawyd bod y tariff yn dueddol o fod yn uwch i drigolion sydd ar fesuryddion rhagdalau.
- Nodwyd bod llawer o broblemau yn bodoli efo'r hen gynlluniau Arbed 1 ac Arbed 2. Eglurwyd bod gwefan y Cyngor yn rhestru pedwar o gontractwyr sydd wedi eu gwirio ac y gellir cyfeirio pobl yma. Adroddwyd mai'r Llywodraeth sydd yn ariannu'r cynlluniau a bod y contractwyr yn cael eu talu ar yr amod eu bod nhw wedi gwella EPC yr eiddo dan sylw. Nid yw'n debygol y bydd y Cyngor yn cynnal ymweliadau i fonitro am ei fod yn gytundeb rhwng y contractwr a'r unigolyn. Cadarnhawyd bod un o'r pedwar cwmni o Ynys Môn ond nid yw'r un ohonynt o Wynedd am eu bod yn gwmnïau mawr, arbenigol. Ychwanegwyd efallai y bydd cyfleoedd yn y dyfodol i hybu'r cynllun a denu mwy o gontractwyr ar ôl asesu'r galw. Nodwyd bod cyfarfodydd misol efo'r contractwyr yn cael eu cynnal.
- Nodwyd bod y mwyafrif o'r cynlluniau ar gael i'r sawl sydd ar fesuryddion rhagdalau ond bod taliadau fel DAF (cronfa cymorth ddewisol) ar gael ar gyfer y sawl sy'n talu biliau'n chwarterol. Ychwanegwyd bod y wybodaeth ar sut i wneud cais wedi ei nodi ar wefan Cyngor Gwynedd.
- Nododd y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol y byddai'n gwirio'r ffigyrau Nyth yn yr adroddiad ac yn cysylltu efo'r Cynghorydd dan sylw i gadarnhau gan ei fod wedi derbyn y ffigyrau yn uniongyrchol gan Nyth. Adroddwyd o hyn ymlaen fel rhan o adroddiad monitro perfformiad y gwasanaeth byddant yn adrodd ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau a'r tai sydd wedi eu gwella.
- Adroddwyd bod Nyth fel arfer yn gwneud un ymweliad yn unig ond nad oes dim yn rhwystro unigolion rhag ceisio am help o dan y cynllun ECO os wedi derbyn cymorth Nyth yn y gorffennol, cyn belled ag y bo lle i wella EPC yr eiddo.
- Credwyd nad yw'n broblem i dderbynwyr lwfans person sengl treth Cyngor dderbyn cymorth gan Nyth ond byddant yn sicr yn gymwys o dan y cynllun ECO. Adroddwyd bod yr Adran yn dueddol o gyfeirio mwy o unigolion at ECO.
- Nodwyd mai'r nod yw ceisio helpu gymaint o bobl a fu'n bosib, yn enwedig o dan ran o'r cynllun ECO Flex fydd yn cychwyn un ai yn yr Hydref neu ar ôl y Nadolig. Bydd hwn yn hyblyg er mwyn cynnwys amryw o bobl.
- Adroddwyd efallai bydd cynllun ychwanegol yn cael ei greu; cynhelir trafodaethau efo Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sydd efo rhywfaint o gyllideb i'r pwrpas yma. Nodwyd yn anffodus nad oes cynllun erioed wedi bodoli i helpu i wella a newid ffenestri eiddo, efallai ei fod yn rhywbeth y gall y Cyngor edrych fewn iddo.
- Ychwanegwyd y bydd lle i ddiweddarau'r adroddiad gan fod datblygiadau yn digwydd yn sydyn ac y byddai'r adroddiad yn adroddiad byw fydd yn cael ei ddatblygu.
- Mewn ymateb i sylw am ail agor llefydd tân sydd wedi cael eu cau mewn tai cymdeithasol, nodwyd yn anffodus bod llefydd tân agored yn creu allyriadau carbon.
- Adroddwyd bod ffactor carbon trydan wedi lleihau o gymharu â 10 mlynedd yn ôl yn bennaf oherwydd yr ynni adnewyddol fel Hydro, solar a melinau gwynt. Nodwyd bod astudiaeth yn cael ei gynnal yn Nhanygrisiau i weld os oes modd darparu'r trydan lleol o'r Hydro i'r tai. Eglurwyd bod rhwystrau e.e. yr angen i bob un o'r tai fod efo'r un cyflenwr trydan, ond ei fod yn waith sy'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.
- Eglurwyd bod gwaith yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Uchelgais o safbwynt 'Smart Networks' sy'n edrych mewn i drydan lleol i bobl lleol a bod adroddiadau yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd. Cynhelir y gwaith hwn ar draws Gogledd Cymru.

Diolchodd y Pennaeth Tai am yr holl ymholiadau a'r cyfle i rannu'r adroddiad efo'r Pwyllgor. Mynegwyd awydd i ddod yn ôl yn y dyfodol agos er mwyn darparu diweddariad pellach ar y cynlluniau i Aelodau'r Pwyllgor.

Adroddwyd y bydd y wybodaeth gafodd ei rannu heddiw yn cael ei roi ar Fewnrwyd yr Aelodau fel y gall yr Aelodau rannu'r wybodaeth efo'u hetholwyr. I gloi nodwyd bod yr Adran yn gwneud eu gorau i helpu gymaint â fu'n bosib o bobl Gwynedd dros y gaeaf nesaf ac yn gobeithio gall y cynlluniau fel y cynllun ECO 4 roi cymorth i amrediad eang o drigolion y Sir.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad oedd yn darparu trosolwg o waith y gwasanaeth Ynni Newydd yn ogystal â'r gwaith Newid Hinsawdd.**

**8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23**

Darparwyd adroddiad byr i'r Aelodau yn dangos rhaglen waith ddiweddaraf y Pwyllgor yn dilyn newidiadau oherwydd eitemau yn llithro. Nodwyd y bydd cyfarfodydd Tachwedd a Chwefror yn gyfarfodydd trwm gall barau drwy'r dydd.

Nid oedd sylwadau na chwestiynau gan yr Aelodau.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad a mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2022/23.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 13:50

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Gofal
Teitl yr Adroddiad	Adroddiad Diweddaru : Gwasanaeth Ieuenctid
Dyddiad y Cyfarfod	10 Tachwedd 2022
Aelod Cabinet Perthnasol	Cynghorydd Elin Walker
Awdur	Steffan Williams, Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid

## 1. Cefndir

- 1.1. Penderfynodd y Cabinet ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn 2018. Aethpwyd ati i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid i sefydlu'r model newydd o'r 1af o Fedi 2018.
- 1.2. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn adrodd ar gynnydd yr ail-fodelu a perfformiad y gwasanaeth drwy'r drefn Herio Perfformiad. Cyflwynodd y Gwasanaeth Adroddiad cynnydd ar flwyddyn gyntaf yr ail-fodelu'r i'r Pwyllgor Craffu Addysg ym mis Ionawr 2020.
- 1.3. Yn fuan iawn wedi'r adroddiad hwnnw daeth cyfyngiadau COVID i rym. Dymuna'r aelod cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor o effaith y pandemig ar yr ail-fodelu a sefyllfa bresennol y gwasanaeth.

## 2. Strwythur yr Ail-fodelu : Gwasanaeth Ieuenctid

- 2.1. Mae darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000. Mae Llywodraeth Cymru (LLC) yn cyfeirio awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gyfranogi yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid. Mae LLC yn gwneud hyn ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol drwy "Cyfarwyddyd a Chanllawiau Ymestyn Hawliau (2002)", Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2014-12018; Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad 2015-2018; a'r Siarter Ieuenctid 2016.
- 2.2. Sefydlwyd y strwythur canlynol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid nol yn 2019:
  - Darparu Rhaglen o Weithgareddau a Prosiectau Gwaith Ieuenctid I bobl ifanc 11-19 oed drwy'r ysgolion (14 ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig) drwy Dim Cymorth Ieuenctid 11-19 oed gyda 8 o Weithwyr Ieuenctid llawn amser.
  - Darparu Rhaglen o Weithgareddau a Prosiect Cymdeithasol i bobl ifanc 11-19 oed mewn cymunedau gydol y flwyddyn, wrth symud o le i le. Cyflawnir y Gwaith yma gan y Tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol gyda 37 o staff rhan amser.
  - Cefnogi Cynghorau cymuned a thref i sefydlu Clybiau Ieuenctid Cymdeithasol i bobl ifanc yn ôl y galw. Cyflawnir y gwaith hwn gan y Tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol gyda 24 o staff rhan amser.
  - Darparu Cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16-25 oed sy'n wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu gydag addysg, hyfforddiant neu waith, drwy'r Tîm Cymorth Ieuenctid 16-25 oed o XX Gweithiwr Ieuenctid Llawn Amser.
  - Comisiynu'r 3ydd Sector i gynnal gweithgareddau, prosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuenctid yn ôl yr angen.
- 2.3. Prif gasgliadau adolygiad y flwyddyn gyntaf oedd
  - bod perfformiad y gwasanaeth ychydig yn well na'r disgwyl;
  - bod cyfraddau ymgysylltiad pobl ifanc gyda'r Gwasanaeth wedi aros yr un peth er y lleihad mewn gwasanaeth;
  - bod y bobl ifanc hynny sydd wedi ymwneud gyda'r Gwasanaeth yn adrodd eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt.
  - bod heriau recriwtio wedi golygu nad oedd y Gwasanaeth yn gweithredu ar ei lawn gapasiti;
  - bod mwy o amser y Tîm Rheoli wedi mynd i helpu i sefydlu Clybiau Cynghorau Cymuned wrth iddynt ddelio gyda recriwtio a rheoli staff, adnabod a negyddu gofod addas, ymateb i a cefnogi gyda rheoli ymddygiad ar nosweithiau y Clwb.

### **3. Y Gwasanaeth yn ystod COVID a'i effeithiau.**

- 3.1. Daeth pob gweithgaredd wyneb i wyneb i ben gan y Gwasanaeth Ieuencid, y partneriaid oedd yn cael eu comisiynu, a gan Glybiau Cynghorau Cymuned.
- 3.2. Symudodd y gwasanaeth i weithgareddau rhithiol yn eithaf llwyddiannus, gan lwyddo i ddenu pobl ifanc mewn cyfnod cystadleuol iawn o ran y "cynnig digidol" oedd ar gael (y byd gemau ar-lein, grwpiau ar lein ac ati).
- 3.3. Parhaodd y Gwasanaeth i gadw cyswllt gyda grwpiau bach o bobl ifanc unai'n rhithiol neu drwy alwadau ffon; a rhai ymweliadau stepen drws ffrynt, a cyfarfod tu allan wyneb i wyneb i rai pobl ifanc fregus iawn.
- 3.4. Wrth adfer y Gwasanaeth aethpwyd ati i ail-ddechrau darparu wyneb yn wyneb gan ganolbwyntio ar waith mewn ysgolion. Roedd gweithio drwy'r ysgolion yn caniatáu y mynediad rhwyddhaf i bobl ifanc i weithiwr ieuencid, ac roedd y gefnogaeth a ddarparwyd yn ychwanegu gwerth at y gefnogaeth llesiant ehangach yn yr ysgolion.
- 3.5. Yn ystod y pandemig daeth prosiect Ad-Trac i ben, sef ein prif ymyrraeth ar gyfer y Gwaith Ieuencid 16-25 oed. Cwblhawyd adolygiad o waith y tîm a cwblhawyd ail-strwythuro o'r tîm i gyfarch anghenion pobl ifanc gan symud i ffwrdd oddi wrth ganolbwyntio ar gefnogaeth gwaith, hyfforddiant a chyflogadwyedd i bobl ifanc i gefnogaeth emosiynol, datblygiad personol a cymdeithasol.
- 3.6. Roedd adfer y gwaith mewn cymunedau yn anodd oherwydd y cyfyngiadau o ran anghenion cofrestru o flaen llaw a'r cyfyngiadau ar niferoedd i ddibenion TTP. Roedd gorfodi pobl ifanc i gofrestru a cyfyngu ar eu gallu i gymdeithasu yn ddi-amod yn groes i egwyddorion gwaith ieuencid, sydd i fod yn gynnig agored, gwirfoddol, hawdd cael ato. Bu l'r cyfyngiadau ein rhwystro rhag cwrdd a'r galw, a bu i nifer o bobl ifanc fethu a chael mynediad i weithgareddau, tripiâu, prosiectau am gyfnod.
- 3.7. Roedd agor y Clybiau Cymunedol ymysg y pethau olaf i ni adfer. Y prif rwystr i hynny oedd bod yr holl o'r ddarpariaeth honno yn ddibynnol ar Bwyllgor Gwirfoddol gwblhau asesiadau a rhoi gweithdrefnau rheoli lledaeniad COVID mewn lle cyn agor eu drysau a llogi i ddefnyddwyr.

### **4. Beth oedd pobl ifanc yn ei ddweud wrthym?**

- 4.1. Bu i'r Gwasanaeth Ieuencid ymgysylltu a thrafod gyda pobl ifanc gydol 2020-21 ynghylch yr hyn oedd yn bwysig iddynt, gan ymateb a newid ein darpariaethau i gyfarch hynny os oedd amgylchiadau a cyfyngiadau yn caniatáu.
- 4.2. Daeth ein darpariaeth rhithiol i ben unwaith yr adroddodd pobl ifanc wrthym bod gormod o'u amser yn mynd ar sgrin a bod angen blaenoriaethu amser ysgol i hynny.
- 4.3. Dywedodd pobl ifanc wrthym hefyd mai cefnogaeth emosiynol yn hytrach na gwaith prosiect megis Gwobr Dug Caeredin oedd ei angen arnynt wrth ddychwelyd i ysgolion.
- 4.4. Dywedodd rhieni a partneriaid Cymorth Ieuencid wrthym fod y cyfyngiadau cymdeithasol cyffredinol ynghyd a rheoli eu cysylltiadau gyda'u cyfoedion drwy swigod caeth mewn ysgolion, gael effaith ar sgiliau a chyfleon cymdeithasol pobl ifanc.
- 4.5. Yn ategol roedd arolwg gan y BBC yn 2021 wedi adnabod mai'r grŵp oedd yn dioddef fwyaf o unigedd yn sgil y pandemig oed dy grŵp oedran 16-24 oed. Arweiniodd yr arolwg hwn at waith ymgynghori lleol gyda pobl ifanc 16-25 oed gan siapia gwaith y Tîm Cymorth Ieuencid ( fel nodir yn 3.5 uchod).
- 4.6. Ynysu cymdeithasol, unigedd ac effaith negyddol ar lesiant oedd yr her fwyaf amlwg y bu i bobl ifanc ddweud wrthym yr oeddent yn ei wynebu. Gan ofyn iddynt be a sut allai'r Gwasanaeth Ieuencid eu helpu roedd pobl ifanc yn awyddus i weld mwy o weithgareddau cymdeithasol, hwyliog oedd yn eu helpu i ddod allan, dod ynghyd gyda pobl ifanc eraill a cael hwyl yn flaenoriaeth iddynt.
- 4.7. Yn ogystal a'r newid pwyslais gan bobl ifanc, rhieni a partneriaid bu i Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd ac adolygiad o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygiad Ieuencid, ynghyd a rhyddhau y Grant Cymorth Ieuencid. ar ei newydd wedd sydd a phwyslais ar ddigartrefedd, iechyd a lles ac iaith.

## **5. Sut mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi ymateb.**

- 5.1. Mae strwythur yr ail-fodelu yn parhau yn weithredol yn y Gwasanaeth Ieuencid. Sefydlwyd y strwythur hwnnw gan fod pobl ifanc wedi dweud wrthym (cyn yr ail-fodelu) eu bod eisiau i'r Gwasanaeth Ieuencid eu helpu gyda be sy'n bwysig iddyn nhw sef dysgu a datblygu eu sgiliau bywyd nad ydynt yn eu cael gartref nac yr ysgol; eu helpu gyda'u datblygiad personol, a rhoi cefnogaeth iddynt gyda'u iechyd a lles. Roedd pobl ifanc hefyd wedi dweud wrthym fod cymdeithasu a chael hwyl gyda'u ffrindiau yn bwysig iddynt. Mae'r pethau hyn yn parhau yn flaenoriaeth i'n pobl ifanc ni, ond efallai fod y pwyslais rhyngddynt wedi newid. Mae pobl ifanc hefyd wedi dweud wrthym fod materion lletya a digartrefedd, a iaith, cydraddoldeb a cynhwysiant wedi dod yn fwy o flaenoriaeth iddynt ers y pandemig.
- 5.2. Nodir yn *Atodiad 1* be gaiff ei ddarparu gan bob tîm ar hyn o bryd i gyfarch yr uchod; a hefyd amlinellir o sut mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i'r newid pwyslais mewn blaenoriaethau a cyfarch blaenoriaethau newydd.

## **6. Themâu Strategol y Gwasanaeth – Iechyd a Lles, Digartrefedd Ieuencid a Iaith a Cynhwysiad.**

6.1. Mae holl ddarpariaeth y Gwasanaeth Ieuencid erbyn hyn wedi ei selio ar y model "5 Ffordd at Les" ar gyfer sicrhau fod ei holl weithgareddau, prosiectau a ymyraethau yn adeiladu gwydnwch personol a hyrwyddo llesiant emosiynol pobl ifanc. Drwy grant mae gan y Gwasanaeth Weithiwr Ieuencid Iechyd a Lles er mwyn arwain ar y gwaith yma a sicrhau fod y timau darparu i gyd yn cyfarch y 5 ffordd at les yn yr hyn maent yn ei wneud o ddydd i ddydd.

6.2. Rydym wedi ail-gydio ar weithredu argymhellion yr adroddiad Llesiant a Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a gomisiynwyd gan y 'Mental Health Foundation' yn 2021. Prif argymhellion yr adroddiad hwnnw oedd :-

- Adolygu Cynllun Cyfathrebu y Gwasanaeth i hyrwyddo negeseuon llesiant a iechyd meddwl da mewn iaith syml.
- Datblygu proses werthuso syml sydd yn gyson ar draws y gwasanaeth, i fesur effaith ein gwaith ar lesiant pobl ifanc
- Diffinio rôl gweithwyr ieuencid yn glir mewn perthynas a'r 5 ffordd at les.
- Datblygu cynllun llesiant staff.
- Lunio llwybr llesiant i bobl ifanc ar y cyd gyda gwasanaethau cymorth ieuencid eraill (megis CAHMS, Barnardos, Gwasanaeth ADYa CH) a gyda pobl ifanc fel eu bod yn deall be sydd ar gael gan wasanaethau a gwasanaethu arbenigol.

6.3. Cynhaliwyd Gŵyl Llesiant i bobl ifanc Gwynedd rhwng 11-25 oed yn ystod mis Mawrth 21-27ain, 2022 i adweithio ir angen a nodwyd gan bobl ifanc yn dilyn cyfyngiadau COVID. Nod yr ŵyl oedd hybu iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Cynlluniwyd llu o weithgareddau rhithiol yn ogystal a wyneb yn wyneb yn ystod yr wythnos. Gweithiom mewn partneriaeth â phobl ifanc a thros 31 o sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol a statudol a gweithiom gyda grŵp o 15 person ifanc a phartneriaid i lwyfannu'r ŵyl ar draws sir Gwynedd. Mae'r prosiect yma wedi cyrraedd rhestr fer enwebiadau Gwobrau Rhagoriaeth Ieuencid eleni.

6.4. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn un o chwech sefydliad a fydd yn rhedeg prosiect 'Meddwl Ymlaen' ar draws Gwynedd a Môn. Mae'n brosiect unigryw ac arloesol sydd yn cael ei ariannu gan y

Loteri Cenedlaethol am gyfnod o 5 mlynedd i fynd i afael a iechyd meddwl lefel isel mewn pobl ifanc 11-25 oed. Mae'r prosiect yma yn galluogi pobl ifanc i arwain er mwyn dychmygu a chreu dyfodol mwy gwydn a meddyliol iach i bobl ifanc. Mi fydd agweddau a gwerthusiad y prosiect yma yn llywio ein cynlluniau ac amcanion llesiant yn y dyfodol.

6.5. Yn ogystal a'r uchod y mae'r gwasanaeth wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i benodi aelodau o staff i ddarparu gwasanaeth penodol i fynd i afael ar ddigartrefedd a llesiant pobl ifanc.

6.6. Mae'r Cydlynnydd Atal Digartrefedd Ieuenctid yn gweithio ochr yn ochr â tîm digartrefedd a thai cymunedol, adrannau eraill a phartneriaid i darparu addysg, hyfforddiant a chymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

6.7. Bydd y Cydlynnydd atal digartrefedd Ieuenctid yn darparu cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc ar draws y sir sydd mewn perygl o neu sy'n ddigartref. Bydd y gwaith yma yn cynnwys gwaith 1 i 1 a gwaith grŵp bach gyda pobl ifanc drwy drefniadau cyfeirio'r gwasanaeth Ieuenctid gan gynnwys PPI haen 2. Bydd y Cydlynnydd yn cyflwyno sesiynau addysgiadol, gwasanaethau a gweithdai i ysgolion a cholegau. Bydd gweithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill a phartneriaid allanol megis GISDA i ymgorffori dull gwaith Ieuenctid i gefnogi y pobl ifanc.

6.8. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi ehangu ar ei ddarpariaeth i fynd i'r afael a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a materion cydraddoldeb i grwpiau penodol o bobl ifanc drwy grant allanol am y 3 blynedd nesaf. Rydym wedi sefydlu trefniadau gyda phartneriaid i gyd-weithio ar brosiectau ar draws Gwynedd yn cynnwys datblygu Fforymau Iaith gyda Hunaniaeth, cryfhau darpariaeth a datblygu eisteddfod lleol y Ffermwyr Ifanc, prosiect Llysgenhadon gyda'r Urdd, ehangu darpariaeth LHDT+ GISDA, darparu Clybiau Ieuenctid Cristnogol gyda Eglwys Bresbyteraidd, datblygu ac ehangu darpariaeth y Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru, cynnig gweithgareddau llesol ar y cyd gyda cartrefi i Wcrain a gweithdai ar gyfer rhieni ifanc i dîm Trobwynt y Cyngor.

## **7. Y Dyfodol a'n heriau**

7.1. Mae recriwtio staff i weithio ar ein darpariaeth cymunedol dal yn her fawr i'r gwasanaeth. Yr ydym wedi trio diwallu hyn drwy addasu y ffordd yr ydym yn hyrwyddo'r swyddi ac wedi mynychu nifer o ffeiriau swyddi, ond yn dal yn gweld yn sialens yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.

7.2. Rydym yn gweld parhad mewn ymddygiadau heriol ymysg rhai grwpiau o bobl ifanc, a/neu mewn rhai ardaloedd penodol. Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid pan gyfyd sefyllfaoedd fel hyn. Yn aml nid yw'r bobl ifanc yn dewis ymwneud gyda'r gweithgareddau a ddarperir gan y Gwasanaeth Ieuenctid, nac yn dymuno derbyn cefnogaeth gan Weithiwr Ieuenctid. Byddwn yn trio addasu ein cynnig, siarad gyda grwpiau o bobl ifanc i ganfod eu diddordebau, eu helpu i fod yn rhan o weithgareddau neu ddarparu'n uniongyrchol ar eu cyfer ond oherwydd sail wirfoddol Gwaith Ieuenctid nid ydym yn gallu gorfodi pobl ifanc i ymwneud a ni na'r hyn a gynigai. Ar adegau gall ymddygiad pobl ifanc yn eu cymunedau fod yn heriol ac yn destun ymyrraeth statudol gan yr Heddlu / Gwasanaeth Cyfiawnder, ond ar adegau gall hefyd fod yn ymwneud a gwella dealltwriaeth a goddefiant cymdeithas o bobl ifanc.

7.3. Wrth i anghenion rhai pobl ifanc ddwysau, a nifer y bobl ifanc sydd angen cefnogaeth gynyddu mae'r her o weithio gyda phartneriaid eraill yn parhau. Mae nifer o'n pobl ifanc ni yn ei chael hi'n



gynyddol anodd i fyw bywyd llawn oherwydd fod cludiant yn un o'r prif rwystrau iddynt erbyn hyn o ran ymwneud gyda'r Gwasanaeth Ieuencid, ond hefyd yn gyffredinol yn eu bywydau o ran cael mynediad i addysg. Hyfforddiant, gwaith, cyfleon cymdeithasol a mwynhau.

# ADRODDIAD DIWEDDARU GWASANAETH IEUENCTID

# 1

**“Dwi eisiau i chi wrando arna i, cynnwys fi, a fy helpu fi; fel fy mod i yn gallu dysgu a datblygu a bod yn berson ifanc iach, hapus a diogel” - Pwrpas Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd.**



*Hwyl ar y dŵr yn Glan Llyn, Awst 2022*

Y mae strwythur ac amcanion y Gwasanaeth Ieuenctid wedi aros yn gyson ers yr ail fodelu yn 2018.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid wedi ei rannu yn 3 ffrwd er mwyn ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl ifanc Gwynedd, ac i uchafu'r cyfleoedd i gydweithio, cyd-gynllunio a chyd-ddarparu gyda phartneriaid. Mae holl ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd yn uniongyrchol, a hwnnw a gomisiynir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth yn seiliedig ar:

- Gwaith Ieuenctid 11-19 oed mewn ysgolion
- Gwaith Ieuenctid 16-25 oed
- Gwaith Ieuenctid Cymunedol.



*(Uchaf) Sesiwn 'Lego League Challenge' yn ystod Gŵyl Llesiant.*

*(Isaf) Prosiect graffiti yn Deiniolen.*



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrdd, dysgu a thyfu.

**“Dwi isho i chi wrando arna i a fy nghynnwys. Dwi isho i chi fy helpu fi trwy fy arddegau i wneud cyfraniad yn fy nghymuned, hefo fy iechyd a lles a hefo dysgu sgiliau fel fy mod yn berson ifanc hapus, diogel ac yn barod ar gyfer bywyd a gwaith.” - Pwrpas y Tîm Gwaith Cymorth Ieuenctid 11-19 oed.**

### **Y TÎM GWAITH IEUENCTID 11-19 OED MEWN YSGOLION**

Mae'r Tîm Cymorth Ieuenctid yn parhau gyda'r pwrpas o feithrin perthnasoedd cadarnhaol hefo pobl ifanc, yn helpu pobl ifanc i feithrin perthynas gadarnhaol hefo nhw eu hunain, gydag eraill a gyda'r gymuned. Mae'r Tîm yn cynnwys 6 o Weithwyr Cymorth Llawn Amser, 1 rhan amser a Gweithiwr Camddefnyddio Alcohol.

Mae'r Tîm yn rhedeg rhaglen o weithgareddau a phrosiectau wedi ei selio ar gwricwlwm anffurfiol o ddysgu, yn tarddu o'r 5 Ffordd at Les ar gyfer adeiladu gwydnwch personol pobl ifanc ac i hyrwyddo a datblygu llesiant emosiynol. Rhaglenni gwaith mewn lle yn yr holl ysgolion sy'n cynnwys Sesiynau Llesiant (5 Ffordd at Les), Gweithgareddau Gwirfoddoli, Garddio, Chwaraeon, rheoli dicter, Perthnasau Iach ac achrediadau Agored Cymru.

Rydym yn darparu Gwobr Dug Caeredin mewn 14 allan o 16 Ysgolion Uwchradd.

Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys amser anffurfiol i'r Gweithiwr ym mhob ysgol sgwrsio gyda phobl ifanc, hyrwyddo eu hawliau a chynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ar faterion sy'n bwysig iddynt. Er enghraifft, sesiwn Iechyd Meddwl yn Ysgol y Moelwyn ar y cyd gyda Nyrsys Ysgolion ac Ymarferydd CAHMS. Mae'r gweithwyr ar gyfartaledd yn treulio tua 10 awr yr wythnos ym mhob ysgol.

Mae'r Tîm yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid



*(O'r chwith uchaf) Arweinydd Tîm Annette Ryan. Gweithwyr Ieuenctid: Alaw Paul, Andrew Owen, Barry Williams, Carina Elias, Ffion Williams, Lieam Williams, Llio Roberts a Nia Rees.*



*(Uchaf) Criw Dug Caeredin o Ysgol Ardudwy yn ymarfer cyfeiriannu. (Isaf) Llun o criw Dug Caeredin o Ysgol Eifionydd ar eu halltaith.*



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrrdd, dysgu a thyfu.



*(Uchaf) Sesiwn ar y cyd gyda Technocamps oddi fewn ysgol. (Canol) Cyd weithio gyda'r Heddlu yn ystod Haf o Hwyl 2022. (Isaf) Prosiect cafodd eu rhedeg gyda Frân Wen.*

cymorth ieuencid eraill. Mae'r cydweithio pennaf gydag:

- Ysgolion
- Nyrsys Ysgol
- Tîm Cyfiawnder Ieuencid
- Yr Heddlu
- Agored Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- CAMHS
- Adran Addysg a Chynhwysiad
- Gwasanaeth Tan
- Cymdeithasau Tai
- Grwpiau Cymunedol a Gwirfoddol Lleol

Mae'r gweithwyr hefyd yn cynnal gweithgareddau a phrosiectau gyda'r nos yn ei hardal nhw, drwy gynnig nosweithiau 'Pop Up' am gyfnod o 6 wythnos ym mhob lleoliad. Y mae'r nosweithiau yma yn cynnig sesiynau hwyliog a cymdeithasol.

**“Dwi isho i chi roi amser i mi, i wrando arna i a roi'r cyfle i mi ddatblygu.” - Pwrpas y Tîm Gwaith Cymorth Ieuencid 16-25 oed.**



*(O'r Chwith Uchaf) Arweinydd Tîm Bethan Jones. Gweithwyr Ieuencid Donna Taylor, Glyn Price, Serah Anderson a Steph Sherlock.*

### Y TÎM GWAITH IEUENCTID 16-25 OED

Mae'r tîm yn darparu cefnogaeth un i un a gwaith grŵp i bobl ifanc oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal eu datblygiad personol. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys gwaith ar iechyd a lles (Perthnasau Iach a Rhaglenni Datblygu Gwytnwch), materion lletya, datblygu llythrennedd digidol ac ariannol ynghyd a chyngor gyrfaol a chyflogadwyedd, yn unol â dibenion y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid.

Mae'r Tîm yn gweithio mewn partneriaeth yn bennaf gyda:

- Gyrfa Cymru



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrrdd, dysgu a thyfu.

# 4

- Colegau Addysg bellach
- Bwrdd Iechyd (CAMHS yn bennaf)
- Canolfannau Byd Gwaith
- Tîm Ôl-ofal Gwasanaethu Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
- Cymdeithasau Tai ac asiantaethau digartrefedd
- Mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol


Mae gan yr unigolion sydd yn derbyn cefnogaeth y tîm anghenion cymhleth. Mae nifer yn dioddef o brofiadau niweidiol plentyndod, sydd wedi gwaethygu fel heriau ers y pandemig ac eto yn sgil yr argyfwng costau byw.

Mae'r tîm bellach yn mynd i'r afael a hyn drwy ehangu ein gwasanaeth a chyd-weithio gydag adrannau eraill. Maent eisoes yn gynnig gwasanaeth 'Helpwr Ariannol', cyd-weithio yn agos gyda CAHMS i ehangu ein darpariaeth 'Ffrindiau', cynnig cwrs Celf am Les, a sefydlu hybiau 'Croeso Cynnes' yng Nghaernarfon a Bangor.

Mae data yn dechrau dangos bod Pobl Ifanc yn profi gwelliant yn eu llesiant. Gellir gweld y gwelliant hwnnw drwy sgôr WEMWEBS a sgôr Iechyd a Lles o fewn y Llwybr Ieuencid. Mae'r Tîm yn arwain ar gyflawnid y Cyngor o'r Fframwaith Ymgysylltiad a Datblygiad Ieuencid. Maent yn arwain ar drefniadau pontio gyda'r ysgolion a'r adran addysg er mwyn cefnogi'r disgyblion hynny sydd yn neu mewn peryg o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant na waith (y Panel Uwchradd, Panel Pontio, Panel Ôl-16).



*Rhai o'r cyfyndrefnau rydym wedi cyd-weithio gyda.*



*Enghraifft o gwaith cloc dyddiol cafodd ei creu yn ystod sesiwn Celf am Les*



*Cwpan o siocled boeth cafodd ei mwynhau fel rhan o'r sesiwn FRIENDS.*



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrdd, dysgu a thyfu.

## “Dwi isho i chi Greu cyfleodd cymdeithasu a datblygu i bobl ifanc yn ein cymunedau ni.” - Pwrpas y Tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol



37 o weithwyr cymunedol symudol.

### Y TÎM GWAITH IEUENCTID CYMUNEDOL

#### Symudol

Mae'r tîm yn cynnwys 37 o weithwyr Cymunedol symudol i weithio gyda'r nos yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol a hwyliog i bobl ifanc fel rhan o "Ddigmwyddiadau Wythnosol y Gwasanaeth Ieuenctid". Rydym wedi rhoi mwy o ffocws ar waith y tîm yma ac ehangu'r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ymateb i adborth pobl ifanc.

Mae'r Tîm wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau, sesiynau blasu a phrosiectau mwystwythuredig - beth bynnag ydy diddordeb y bobl ifanc. Dros y flwyddyn mae'r rhain wedi cynnwys coginio, gweithgareddau chwaraeon, cystadlaethau, celf a chrefft, sesiynau awyr agored, gemau cyfrifiadurol, gweithgareddau harddwch a llawer mwy.

Mae'r Tîm wedi cyrraedd pobl ifanc ar draws y sir drwy ymweld gyda 42 o gymunedau yn ystod y flwyddyn. Mae'r Tîm hefyd yn cynnal 3 clwb ieuenctid mewn partneriaeth gyda Derwen ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion ychwanegol. Mae'r Clwb Cyfeillgar ar gael dros 5 noson ar draws y sir: Caernarfon (3 noson), Y Ffor (1 noson) a Blaenau Ffestiniog (1 noson). Mae'r bobl ifanc yn cael cyfle i ddod i fwynhau gweithgareddau, dewis prosiectau eu hunain ac ennill sgiliau. Mae'r Tîm wedi cydweithio gyda nifer o sefydliadau megis Byw'n lach, Elfennau Gwyllt, WITH Gobaith, Y Fan Gemau a sinemâu cymunedol Abermaw a Thywyn i ddarparu gweithgareddau 'Haf o Hwyl' a Gweithgareddau Llawn Lles ar draws y sir yn 2021 a 2022.



Trip i Glasfryn am gêm o fowlio deg.



Criw o pobl ifanc yn ciwio am go yn y "Gaming Van".



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrrdd, dysgu a thyfu.

Mae'r Tîm hefyd wedi cynnal peilot Gweithwyr Chwarae ar gyfer gwyliau'r ysgol, ac eleni bu 12 weithiwr gynnal 78 o sesiynau chwarae dros yr haf gan ddenu dros 400 o gyfranogwyr.

Yn unol â dymuniadau'r bobl ifanc am dripiâu a phenwythnosau i ffwrdd mae'r tîm wedi trefnu:


- Penwythnosau preswyl yn Glan Llyn
- Penwythnos i ymweld ar senedd yng Nghaerdydd
- Bowlio deg yng Nglasfryn
- Dringo yn ganolfan Beacon
- Sglefrio ia yn Llannau Dyfrdwy

Mae'r prosiect yma yn cyd-weithio gyda 8 o gynghorau tref i ddarparu Clybiau Cymunedol leuencid am 30 wythnos y flwyddyn.

### ***Mewn Clybiau Cynghorau Cymuned a Thref***

Mae'r Tîm yn cynnwys 24 o weithwyr sydd ynghlwm i Glybiau leuencid Cymunedol i ddarparu clwb cymdeithasol i bobl ifanc gallu ddod ynghyd a chael hwyl. Rydym wedi ail-agor clybiau Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Llanrug a Llan Ffestiniog gyda dros 200 yn mynychu yn wythnosol. Rydym hefyd wedi cefnogi a sefydlu 4 Clwb Newydd ym Methesda, Llanberis, Bethel a Deiniolen dros y mis diwethaf. Rydym hefyd wedi cychwyn cyd-weithio gyda chynghorau tref Bangor, Abermaw, Aberdaron, Porthmadog a Bontnewydd, sydd wedi datgan diddordeb ariannu clybiau cymunedol ei hardaloedd.

Yn ogystal a'r 3 Tîm yma, rydym hefyd yn cynnig cymorth atal digartrefedd a iechyd a lles i bobl ifanc Gwynedd.



**78 o sesiynau gyda dros 400 o gyfranogwyr.**



**Person ifanc yn rhoi go ar rhaffau uchel yn Glan Llyn.**



**Poster hyrwyddo Disgo cymunedol Blaenau.**



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrdd, dysgu a thyfu.



### **ATAL DIGARTREFEDD IEUENCTID**

Mae'r Cydlynnydd Atal Digartrefedd Ieuenctid yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm digartrefedd a thai cymunedol, adrannau eraill y cyngor a'n bartneriaid. Maent yn darparu addysg, hyfforddiant a chymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mi fydd gwaith y Cydlynnydd atal digartrefedd ieuenctid wedi'i dargedu at bobl ifanc ar draws y sir sydd mewn perygl o fod neu sy'n bresennol yn ddigartref. Bydd yn gynnwys gweithio 1 i 1 a mewn grwpiau bach i mynd drwy cynllun atgyfeirio'r gwasanaeth ieuenctid, gan gynnwys PPI haen 2, cyflwyno sesiynau addysgiadol, gwasanaethau a gweithdai i ysgolion a cholegau i gynyddu a thargedu ymyrraeth gynnar.

Maent hefyd yn cynnig rhedeg sesiynau mewn ysgolion uwchradd a cholegau. Mi fydd yn gweithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill i ymgorffori dull gwaith ieuenctid i gefnogi y pobl ifanc.



### **IECHYD A LLES POBL IFANC**

Mae'r Gweithiwr Ieuenctid Iechyd a Lles yn defnyddio'r 5 Ffordd at Les ar gyfer adeiladu Gwydnwch Personol Pobl Ifanc ac i Hyrwyddo Llesiant Emosiynol Pobl Ifanc. Mi fydd yn cyrraedd yr amcanion yma drwy feithrin perthnasoedd, drwy ein cwricwlwm, ein gweithgareddau a'r cyfleoedd rydym yn ein cynnig, drwy ein ffordd o weithio a drwy gyfathrebu.

Ei phrif amcanion fydd;

- Adolygu Cynllun Cyfathrebu'r Gwasanaeth
- Datblygu proses werthuso syml sydd yn gyson ar draws y gwasanaeth, drwy fesur effaith ein gwaith ar lesiant
- Diffinio rôl gweithwyr ieuenctid yn glir mewn



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrrdd, dysgu a thyfu.



perthynas â'r 5 ffordd at les.

- Adolygu'r cynllun hyfforddiant a goruchwyliaeth
- Datblygu cynllun llesiant staff.
- Drafftio llwybr llesiant i gyfranogwyr
- Cydweithio gyda phartneriaid megis CAHMS, Barnardos, Partneriaeth Awyr Agored ayyb.


### TREFNIADAU YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU

- Yn sefydlu a chynnal cyfrifon Facebook, Twitter, Instagram, Snapchat a Youtube.
- Rhyddhau "Rhaglen Wythnosol" i hysbysebu ein gweithgareddau.
- Rhyddhau newyddlen reolaidd yn Rhaeadr ac ar ein tudalennau cymdeithasol.
- Cyhoeddi pamffledi gwybodaeth am y gwasanaeth.
- Cynnal stondinau gwybodaeth a darparu cyflwyniadau mewn ysgolion; colegau; a digwyddiadau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Ieuenctid.
- Cyd-weithio gyda'r gweithwyr ieuenctid i ddatblygu adnoddau ar gyfer ein darpariaeth.
- Ehangu rhwydweithiau gwaith gyda phartneriaid, rhan ddeiliaid a sefydliadau eraill o gwmpas Gwynedd.
- Casglu astudiaethau achos a rhannu arferion da'r Gwasanaeth Ieuenctid.

### BETH OEDD POBL IFANC YN EI DDWEUD WRTHYM?

Bu i'r Gwasanaeth Ieuenctid ymgysylltu a thrafod gyda phobl ifanc gydol 2020-21 ynghylch yr hyn oedd yn bwysig iddynt, gan ymateb a newid ein darpariaethau i gyfarch hynny os oedd amgylchiadau a chyfyngiadau yn caniatáu.

Daeth ein darpariaeth rithiol i ben unwaith yr adroddodd pobl ifanc wrthym fod gormod o'u hamser yn mynd ar sgrin a bod angen blaenoriaethu amser ysgol i hynny.



*Mae sawl cyfrif cyfrwng cymdeithasol gennym.*



*Stodin ar gyfer Fair y Glas Prifysgol Bangor.*



*Rhai o'r posteri cafodd eu dylunio.*



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrdd, dysgu a thyfuo.



Dywedodd pobl ifanc wrthym hefyd mai cefnogaeth emosiynol yn hytrach na gwaith prosiect megis Gwobr Dug Caeredin oedd ei angen arnynt wrth ddychwelyd i ysgolion.

Dywedodd rhieni a phartneriaid Cymorth Ieuenctid wrthym fod y cyfyngiadau cymdeithasol cyffredinol ynghyd a rheoli eu cysylltiadau gyda'u cyfoedion drwy swigod caeth mewn ysgolion, gael effaith ar sgiliau a chyfluoedd cymdeithasol pobl ifanc.

Yn ategol roedd arolwg gan y BBC yn 2021 wedi adnabod mai'r grŵp oedd yn dioddef fwyaf o unigedd yn sgil y pandemig oed dy grŵp oedran 16-24 oed. Arweiniodd yr arolwg hwn at waith ymgynghori lleol gyda phobl ifanc 16-25 oed gan siapio gwaith y Tîm Cymorth Ieuenctid oed 11 - 19.




Ynysu cymdeithasol, unigedd ac effaith negyddol ar lesiant oedd yr heriau fwyaf amlwg y bu i bobl ifanc ddweud wrthym yr oeddent yn ei wynebu. Gan ofyn iddynt sut allai'r Gwasanaeth Ieuenctid eu helpu roedd cael rhagor o weithgareddau cymdeithasol a hwyliog oedd yn eu helpu i fynd allan, dod ynghyd gyda phobl ifanc eraill a chael hwyl yn flaenoriaeth iddynt. Yn ogystal â'r newid pwyslais gan bobl ifanc, rhieni a phartneriaid bu i Lywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd ac adolygiad o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid, ynghyd a rhyddhau'r Grant Cymorth Ieuenctid. Ar ei newydd wedd mae pwyslais ar ddigartrefedd, iechyd a lles ac iaith.



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrrd, dysgu a thyfu.


## YSTADEGAU

Gweler isod trawstoriad o ystadegau o'r flwyddyn ariannol yma (Chwarter 1 a Chwarter 2).



5500 o gyfranogwyr ar draws yr holl brosiectau


2850 o sesiynau wedi ei ddarparu



477 wedi cwblhau achrediad



Ymgysylltu gyda 180 o bobl ifanc bregus haen 1 a 2



97% o bobl ifanc wedi nodi bod ei lles wedi gwella



96% wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir




95% wedi dysgu sgil newydd / cael profiad newydd



98% a fydd yn mynychu sesiynau tebyg yn y dyfodol



82% o bobl ifanc bregus (16-25) wedi gwella ei lles dros gyfnod



100% o bobl ifanc 16-25 wedi cyflawni ei chynllun personol



Darparu ffordd ddiogel a hwyl i bobl ifanc Gwynedd gwrdd, dysgu a thyfu.

## BE MAE POBL IFANC YN EI DDWEUD AM Y GWASANAETH IEUENCTID?

Mae'r dyfyniadau yn gymysgedd o beth gafodd ei ddweud yn holiadur barn pobl ifanc ac adborth sydd wedi cael ei anfon i'r Gweithwyr Cymorth Ieuencid wrth ei gwaith.



“The support has helped me by having someone to talk to when I was feeling worried and not sure. It has given me more confidence to achieve my goals”.  
(Person Ifanc, Gwynedd)



“I think that they give everyone a chance and and help you develop new skills. And the staff are so nice and always happy to help.” (Person Ifanc, Bangor)



“Mae gael dysgu pethau ffurfiol mewn awyrgylch anffurfiol yn siwtio fi well – nesi anghofio fod oni neud gwaith.” (Person ifanc, Pwllheli)



‘Rwyf yn mwynhau'r sesiynau yma yn arw – nid yw'n teimlo fel rydym mewn gwrs oherwydd rydym yn gael llawer o hwyl wrth ddysgu. (Person Ifanc, Nefyn)



“Thing is we've had a strange few years with covid, I remember doing this before it all so it just feels nice you know? Like it was before?” (Person Ifanc, Blaenau Ffestiniog)



“Mae sesiwn yma wedi dod a fi allan o ty, a wnes i joio felly dwi am dod nol” (Person Ifanc, Trawsfynydd)



# Eitem 7

Dyddiad:	10 Tachwedd 2022
Teitl:	Polisi Gosod Tai
Pwrpas:	Cyflwyno Adroddiad Interim
Swyddog Cyswllt:	Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Craig ab Iago

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn y cyfarfod ar 29 Medi 2022 cytunodd y Pwyllgor Craffu Gofal bod angen ystyried yr agweddau canlynol:

- Ydy'r polisi wedi cyflawni ei bwrpas sef uchafu'r nifer o dai sy'n cael eu gosod i drigolion Gwynedd gyda chysylltiad lleol?
- Oes problemau wedi bod o ganlyniad i'r polisi newydd?
- Oes angen gwneud addasiadau pellach i'r polisi?

1.2 Beth a gyflwynir yma, gyda chaniatâd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, ydi adroddiad interim gyda'r bwriad i adrodd yn llawn i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd. Mae hyn ar sail y bydd newidiadau posibl ar y gweill fel canlyniad i newidiadau mewn polisi a/neu ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth, ynghyd â'r angen i flaenoriaethu rhai agweddau penodol yn ymwneud â'r maes digartrefedd gan y Cyngor. Fodd bynnag fe fanteisir ar y cyfle i roi trosolwg bras i'r Pwyllgor o'r cynnydd ers dechrau gweithredu'r Polisi Gosod Tai ddwy flynedd yn ôl.

## 2. Cefndir a Throsolwg

2.1 Mae'n ofyn statudol, yn unol ag adran 167 o Ddeddf Tai 1996, i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru gael cynllun dyrannu tai (neu bolisi gosod tai) ar gyfer pennu blaenoriaethau a'r broses i'w dilyn wrth ddyrannu tai. Mae'r Ddeddf ac arweiniad statudol gan Lywodraeth Cymru yn pennu'r rheolau sydd rhaid eu dilyn wrth lunio a gweithredu'r polisi.

2.2 Ar 25 Mehefin 2019 penderfynodd Cabinet y Cyngor i fabwysiadu Polisi Gosod Tai newydd sydd yn blaenoriaethu anghenion ymgeiswyr ar sail eu gosod mewn band blaenoriaeth yn hytrach na'r system flaenorol o ddyfarnu pwyntiau i bob cais. Mae diffiniad o'r bandiau wedi ei gynnwys yn y tabl isod:

Band	Graddfa o Angen Tai
Band 1	a. Ymgeiswyr mewn Angen Tai Brys â chysylltiad Gwynedd
	b. Ymgeiswyr mewn Angen Tai Brys (heb gysylltiad Gwynedd)
Band 2	Ymgeiswyr mewn Angen Tai â chysylltiad Gwynedd
Band 3	Ymgeiswyr mewn Angen Tai heb gysylltiad Gwynedd ac Ymgeiswyr gyda blaenoriaeth is
Band 4	Ymgeiswyr heb angen tai gyda chysylltiad Gwynedd.

2.3 Bydd y band y mae ymgeisydd yn cael ei osod ynddo yn dibynnu ar eu hangen tai ac a oes ganddynt gysylltiad â Gwynedd neu beidio. Er mae'n bwysig nodi, ni chaiff ceisiadau heb angen tai a heb gysylltiad â Gwynedd eu cynnwys yn unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth ac fel canlyniad ni fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu cofrestru.

2.4 Daeth y Polisi newydd yn weithredol yn ystod tymor yr Hydref 2020. Yn ystod y broses o ddatblygu'r Polisi presennol rhoddodd Llywodraeth Cymru sialens i'r defnydd o gysylltiad lleol oedd yn nrafft cyntaf o'r Polisi. Bu rhaid felly addasu'r cynnwys ychydig er mwyn cydymffurfio

gyda disgwyliadau'r Llywodraeth, ond hefyd cydnabod bod y Cyngor wedi gwthio'r defnydd o gysylltiad lleol i'r eithaf.

- 2.5 Ers dechrau gweithredu'r Polisi newydd mae 1237 uned deuluol wedi derbyn eiddo cymdeithasol. Roedd 1194 o'r ceisiadau hynny yn rhai gyda chysylltiad â Gwynedd (fel sydd wedi ei ddiffinio yn y Polisi) sef 96.5% o'r gosodiadau. Cyn gweithredu'r polisi newydd roedd nifer y gosodiadau i bobl gyda chysylltiad Gwynedd yn 90.0%.

### **3.0 Rhaglen Waith**

- 3.1 Gyda'r Polisi wedi bod yn weithredol ers dwy flynedd bellach mae yna gyfle i adolygu elfennau o'i weithrediad. O safbwynt y defnydd o gysylltiad lleol (fel y manylir arno uchod) argymhellir nad oes angen addasu'r Polisi ymhellach. Mae'n debygol iawn y byddai unrhyw ymgais i gryfhau'r elfen hon yn arwain at dderbyn sialens i gyfreithlondeb y Polisi na fyddai modd ei amddiffyn. Yn ogystal, fel y nodir uchod mae'r canran o osodiadau i ymgeiswyr a chysylltiad â Gwynedd (fel sydd wedi ei ddiffinio yn y Polisi) wedi bod yn uchel iawn ers y newid polisi.
- 3.2 Mae adolygiad pen desg o'r Polisi eisoes wedi cychwyn i sicrhau bod pob agwedd weithredol o'r Polisi yn cwrdd â gofynion Cod Arweiniad y Llywodraeth a hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi'r sylw priodol i anghenion tai trigolion Gwynedd.
- 3.3 Bydd yr elfennau hyn yn derbyn sylw llawn ac yn rhan o'r adroddiad a ddaw gerbron y Pwyllgor yma yn y flwyddyn newydd.
- 3.4 Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r cynnydd sylweddol sydd wedi bod ar wasanaethau Digartrefedd y Cyngor dros y misoedd diwethaf sydd yn eu tro wedi cael effaith ar y Gofrestr Dai, gyda nifer y ceisiadau am eiddo cymdeithasol wedi cynyddu 49.3% yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.
- 3.5 Mae sgîl effeithiau hyn nawr yn weledol gyda'r nifer o ymgeiswyr bregus digartref sydd yn aros mewn eiddo dros dro wedi cynyddu'n sylweddol i'r pwynt nad oes yna gapasiti eiddo dros dro bellach ar gael yn y sir. Mae'r gwariant ar eiddo dros dro hefyd yn sylweddol ac felly mae yna wir angen i symud yr ymgeiswyr bregus yma ymlaen i eiddo sefydlog hir-dymor.
- 3.6 Mae hefyd angen cydnabod strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru sydd yn anelu i osgoi'r defnydd o lety dros dro am gyfnodau hir. Mae'r dynesiad yma - Ailgartrefu Cyflym - yn seiliedig ar yr egwyddorion o symud pobl i lety sefydlog yn gyflym, gyda llety dros dro yn rhan allweddol, ond cyfyngedig o'r broses. Bydd angen i'r Polisi Gosod Tai adlewyrchu'r newid pwyslais cenedlaethol yma. Mae nifer o Awdurdodau yn yr Alban wedi uchafu'r ganran o osodiadau i ymgeiswyr digartref fel rhan o'r cynllun Ailgartrefu ac rydym yn ymwybodol fod awdurdodau yng Nghymru yn edrych ar hyn yn ogystal.
- 3.7 Mae'n debygol y bydd yna hefyd newidiadau i ddeddfwriaeth ar y ffordd ac y byddwn yn cynnal trafodaethau gyda'r Cymdeithasau Tai ynglŷn â sut y gallwn uchafu gosodiadau eiddo i bobl sydd yn ddigartref ac yn wynebu digartrefedd.

### **4.0 Argymhellion**

- 4.1 Ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol fod nifer o'r awdurdodau yng Nghymru yn edrych ar yr angen i adolygu polisiâu gosod tai fel canlyniad i'r sefyllfa ddigartrefedd (yn benodol y cynnydd sylweddol mewn defnydd o lety dros dro). Bydd yr adran yn trafod gyda'n cydweithwyr mewn

awdurdodau eraill ynghyd â fforymau rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau fod y polisi yn parhau i fod yn gyfredol ac yn alinio gyda blaenoriaethau'r maes.

4.2 Bwriedir cynnal trafodaethau ffurfiol gyda'r Cymdeithasau Tai ddechrau'r mis nesaf ynglŷn â hyd a lled y newid posibl a pha agweddau o'r trefniadau presennol fydd angen eu haddasu.

4.3 Gan ystyried y gall y newidiadau arfaethedig gael effaith arwyddocaol i weithrediad y polisi yn ystod y misoedd nesaf, gofynnwn i aelodau'r Pwyllgor os ydynt yn fodlon derbyn cynnwys yr adroddiad hwn a chytuno yn ogystal i'r Adran gyflwyno adroddiad cynhwysfawr pellach a fydd yn mynd ger bron y Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

# Eitem 8

<b>CYFARFOD</b>	PWYLLGOR CRAFFU GOFAL
<b>DYDDIAD</b>	10 Tachwedd 2022
<b>TEITL</b>	Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2022/23
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	I'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.
<b>AWDUR</b>	Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Medi 2022.
2. Ers y cyfarfod yna, mae'r eitem 'Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd', a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod yma, wedi llithro gyda'r angen i'w ail-raglennu.
3. Yn ogystal, mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi cael cyfarfodydd gyda'r Aelodau Cabinet a Phenaeithiaid perthnasol. Adnabuwyd un eitem ychwanegol i'r Pwyllgor roi ystyriaeth i'w flaenoriaethu sef, canlyniad archwiliad a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
4. Fel y gwelwch yn yr Atodiad i'r adroddiad, mae pedair eitem eisoes wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn mis Chwefror. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar yr achlysur yma.
5. Ystyriaeth arall i'r Pwyllgor wrth flaenoriaethu eitemau, fydd yr hyn sydd wedi deillio o'r drafodaeth yn y Pwyllgor ar yr eitem 'Polisi Gosod Tai'. Nodir yn yr adroddiad y bwriad i gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.
6. **Gofynnir i'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.**



## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

<b>07/07/2022</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gofal Gogledd Cymru</li> </ul>
<b>29/09/2022</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)</li> <li>• Gwasanaeth Cadwraeth Ynni Newydd</li> </ul>
<b>10/11/2022</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaeth Ambiwylans</li> <li>• Gwasanaeth Ieuencid</li> <li>• Polisi Gosod Tai</li> </ul>
<b>16/02/2023</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Siop Un Stop Tai</li> <li>• Cynllun Gweithredu Tai</li> <li>• Lleoliadau Plant Mewn Gofal</li> <li>• Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Plant a Theuluoedd)</li> </ul>
<b>20/04/2023</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)</li> <li>• Cynllun Awtistiaeth 2021-23</li> <li>• Darpariaeth Gofal Dementia</li> </ul>

Eitem i'w raglennu:

Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd